

Serious Annoyance / Annifyrwrch Difrifol Ymateb Angharad Tomos i Fesur Newydd yr Heddlu

'Byddai'r Toriaid yn gwahardd y rhan fwyaf o'r pethau wnaeth Iesu Grist yn ystod wythnos y Pasg, ac yna'n comisiynu darn arian i gofio Pontius Peilat.'

Trydariat gan weinidog o Gaernarfon oedd hwn, barodd i mi ddechrau meddwl am y mater. Mae llawer yn anhapus y dyddiau hyn am Fesur yr Heddlu a Throseddau sy'n mynd drwy'r Senedd yn San Steffan. Mae cymal dadleuol sy'n dweud fod siawns i rywun gael hyd at ddeng mlynedd o garchar am brotestio. Y drosedd yw creu 'serious annoyance'. Mae o'n eiriad mor amwys sy'n gadael y maes yn beryglus o agored. Beth yw'r diffiniad o 'annoyance'? Beth yw 'serious annoyance'? Ac 'annoyance' i bwy ydyw?

Wedi darllen trydariat Rhys Llwyd, dyma feddwl beth fyddai'r awdurdodau wedi ei wneud o ymddygiad Crist yn y deml ar drothwy'r Pasg. Mae'n mynd i mewn i'r deml efo chwip yn ei law ac yn gyrru'r gwerthwyr allan. Yna mae'n disgrifio'r deml fel 'tŷ fy Nhad' ac yn dweud y petha mwyaf dychrynlyd am y Phariseaid. Mi dybiwn i fod hyn yn dod dan y term 'serious annoyance' ac y byddai'r Llywodraeth bresennol yn mynnu fod Crist yn cael cyfnod go faith yng ngharchar.

Ond pam ddaru Crist ymddwyn fel hyn? Onid am ei fod yntau yn 'seriously annoyed', a phan fo pethau'n mynd i'r pen, doedd dim dewis ond dangos dicter, a throi byrddau a chadeiriau – chwalu'r sioe yn fynegiant o gynddaredd. 'Ddylai peth fel hyn ddim bod' oedd y neges ac, wrth gwrs, dyma ddiben protest.

Ni fyddai'n fy synnu petai'r Mesur Heddlu a Throseddau yn cael ei basio, ond ni ddylai hynny ein rhwystro rhag protestio. Y ddelwedd sydd wedi aros yn y cof yw'r un o Patsy Stevenson bengocho yn cael ei llusgo ymaith gan ddau heddwes wedi gwylnos heddychlon yn Llundain yn dilyn llofruddiaeth y ferch ifanc Sarah Everard. Mae hyn yn digwydd ychydig fisoedd wedi'r ddelwedd erchyll o ben-glin Derek Chauvin ar wddf George Floyd.

Drwy basio deddf o'r fath, neges y Toriaid ydi 'Byhafiwch', ac oni fyddwch yn byhafio, bydd canlyniadau difrifol. Mae hon yn neges eironig gan lywodraeth sydd mor llwgr a thywyllodrus ac mai byhafio yn ôl eu gwerthoedd hwy sy'n bwysig. Caiff aelodau'r dosbarth breintiedig fyw fel y mynnont, ond gwae i ddosbarth arall herio'r drefn. Maent yn ddyddiau peryglus.

Ond prin yw'r cyfnodau sydd heb fod yn beryglus i'r rhai sy'n gwrthwynebu'r drefn. Yn wir, i'r Cristion, mae'n anodd meddwl am oes lle mae wedi golygu bywyd tawel. Bydda i'n meddwl am John Penry yn ei gell a'r hyn oedd yn ei gynnal, neu John Bunyan yng ngharchar Bedford yn sgwennu 'Taith y Pererin'. Mae bod yn Gristion yn gofyn am drwbl.

Am ei fod yn fyd pechadurus, dydi cyfiawnder ddim yn dod yn hawdd. Dyna pam fod yn rhaid i Gristnogion a diwygwyr cymdeithasol



Protest yn erbyn Ffair Arfau yng Nghaerdydd, 2019 (Sylwer ar y dyfyniad o'r emyn yn y cefndir)

ymgyrchu'n barhaus i newid trefn naturiol pethau. Does gennym mo'r grym gwleidyddol i orfodi newid; y cwbl fedrwn ni ei wneud yw tystio i'r ffaith fod ffordd arall, ffordd amgen. Mae'n golygu tipyn o ymdrech: gall olygu rhoi blaenoriaeth i eraill, rhannu yn decach, ystyried pobl wan a gwael, meddwl am y diamddiffyn a'r rhai sydd mewn angen. Ond dydi newid y drefn ddim yn amhosibl.

Weithiau, mae ymgyrchoedd yn cydio. Dwi'n meddwl am Jiwbilî 2000 pan ymunodd eglwys i'w gilydd i fynnu fod gwleidydd cyfoethocaf y byd yn maddau dyledion y gwleidydd tlotaf. Ac mae yna ymgyrchwyr diweddar hefyd – meddyliwch am ferch ysgol benderfynodd yn Sweden ei bod am wrthod mynd i'r ysgol ar ddydd Gwener am ei bod yn pryderu am newid hinsawdd. Mater o fisoedd gymerodd hi. Meddyliwch am chwaraewr pêl-droed ifanc a dynnodd sylw at y ffaith nad yw'n iawn i blant yng ngwleidydd Prydain ddioddef newyn. Mater o gynnig delwedd wahanol ydyw a datgan: 'Nid oes raid i bethau fod fel hyn.'

Daliwn ati i brotestio felly, a gwneud yr hyn a fedrwn i wrthwynebu Mesur yr Heddlu a Throseddau. 'N'ad im ofyn am esmwythfyd' ddywedodd J. Tywi Jones yn 'Emyn y Chwyldro' (*Caneuon Ffydd*, 742):

byth na chaffer arf ond cariad
hollorchfygol yn fy llaw.

Awn allan i'r priffyrdd a'r caeau 'yn anturiaeth fawr y groes', a styrbio peth ar y drefn!

O'r byd a'r betws

'gobaith, goleuni a nerth i symud mlaen'



Mewn un rhifyn diweddar o'r *Western Mail* (16-3-21), cafwyd erthygl yn trafod yr angen i ddarparu'n briodol ar gyfer dychweliad y disgyblion i'r ysgolion, a hynny'n gwbl briodol. Mor gyferbyniol oedd y sefyllfa yng nghyd-destun y drafodaeth ar y dudalen gyferbyn. Trafodai'r erthygl y deng mlynedd ers i Syria ddiodeff arswyd rhyfel cartref, â thri grŵp amlwg o leiaf o fewn ffiniau'r wlad yn brwydro am eu dylanwad a'u hawliau. Nodwyd bod 12,000 o blant wedi eu lladd neu eu niweidio, ac nad oedd adeiladau pwrpasol ar ôl i ganran sylweddol o'r plant dderbyn eu haddysg, cynndrwyg fu effaith y bomio. Yn ystod y cyfnod hwn lladdwyd hanner miliwn allan o boblogaeth o 23 miliwn, ac mae'r gost i seicoleg y wlad yn anfesuradwy. Eleni eto, gallwn ddisgwyl clywed am ffoaduriaid yn ceisio croesi ar gychod gwantan, i geisio lloches a bywyd newydd.

Ceir hanes dau frawd o feddygon wedi cyrraedd Caerdydd, ond gan nad oedd modd gwirio'u dogfennau proffesiynol, gwaherddir iddynt ymarfer eu doniau. Maent wedi bod yn gwneud llawer o waith gwirfoddol a chynorthwyo mewn cartrefi gofal.

Yng Nghymru, ceir pob math o gwyno am y cyfyngiadau oherwydd COVID-19, a llawer yn gweld bai ar ein llywodraeth. Faint o'r cwynwyr, tybed, sydd wedi gofyn am hynt y dadwreiddio yn Syria? Aeth y rhyfel yn angof i'r mwyafrif, a'r cyfeiriadau ato yn arwynebol a diddeall. Mae perygl i'n gweddïau fod yn arwynebol hefyd wrth gyfeirio at y digartref a'r dioddefwyr. Byd felly yw ein byd, a'n bywydau yn colli ffocws ar realiti.

Ar wefan [Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop](#), dethlir bod 13 o eglwysi Bedyddiedig yn Syria a Homs, a bod naw canolfan wedi agor yno ers 2016. Nodir bod rhwng 40 ac 80 o aelodau iddynt, a disgwylir eu sefydlu'n eglwysi yn fuan. Mae 400 o addolwyr cyson yn eglwys Fedyddiedig Homs, lle roedd dim ond 15 aelod ddeng mlynedd yn ôl.

Nodir bod y sefyllfa economaidd a gwleidyddol yn Syria yn anghynaliadwy, gyda gwrthdaro parhaus rhwng yr unedau gwrthryfelgar. Mae cyflog y gweithwyr ar gyfartaledd tua \$10 yr wythnos, sy'n annigonol i brynu bwyd sylfaenol i deulu. Dywedir bod yr

Eglwys yn ceisio cynorthwyo tlodion yn y dref drwy ddsbarthu pecynnau bwyd, meddyginiaeth ac angenrheidiâu sylfaenol i 1,200 o deuluoedd. Mae'r eglwysi sy'n ennill pobl i Grist yn gwasanaethu eraill, pwy bynnag ydynt. Gwelant bobl mewn angen ac yna ymroi i ddangos parch a chariad tuag atynt. Mae eu hanes hwy yn esiampl i genhedloedd breintiedig Ewrop a'r byd.

Mae tystiolaeth yr [Eglwys Bresbyteraid](#) yn Aleppo a Homs yr un mor gyffrous, ac er bod eu hadeiladau wedi eu chwalu mae eu ffydd a'u tystiolaeth yn llachar. Nid adeilad yw eglwys, ond corff Crist yn y byd. Ceir pwyslais tebyg gan Eglwys Uniongred Syria, ac meddai Esgob Boutros Alnemeh: 'Gall yr eglwys roi i'r bobl obaith, nerth a goleuni i symud ymlaen.' Onid yw hynny'n wir hefyd yng nghyd-destun effaith COVID-19 ym mhob gwlad? Sut bynnag y deallwn neges Duw ar gyfer ein cyfnod a'n cymunedau, y ffordd ymlaen ddylai fod yn ffocws ein myfyrdodau bellach: 'Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi...'

Denzil John
Caerdydd

John Owen, ei awen ef – casgliad o englynion y Parchedig John Owen

Bu John yn hoff o farddoniaeth erioed, y rhydd a'r caeth, oherwydd gallu'r bardd i gyfleu profiad neu wirionedd mewn ffordd gofiadwy. Rhyw 'myrraeth fypwyl ydoedd cynganeddu iddo dros y blynyddoedd nes cyrraedd oed ymddeol a chymryd y grefft yn fwy o ddifri. Wedyn, dyma gasglu'r englynion at ei gilydd a'u cyhoeddi mewn llyfryn, casgliad byr yn bennaf ar gyfer teulu a ffrindiau, a'i roi ar gael i unrhyw un arall sy'n ymddiddori.



Braint, dros y blynyddoedd, oedd cael trafod y gynghanedd gyda John Owen, ac yntau'n ysgrifennu ar ystod eang o ddi-ddordebau a phrofiadau, fel y gwelir yn y gyfrol werthfawr hon o englynion. Cefais y profiad fy hunan fod ysgrifennu englyn yn help i ymdopi â sefyllfaoedd anodd ac yn help i weld y ffordd ymlaen. Credaf fod hynny'n wir am John hefyd. Gwelir hynny yn yr englynion gwych a theimladwy sy'n sôn am Gwenda, gwraig John, a chyfnod yr MND (Motor Neuron Disease). Dyma dri o'r englynion o blith y deuddeg:

Gwenda yn Byw hefo MND

Dihunan er dihoeni, – er i ing
Yr angau ei phoeni,
Gwena trwy'r holl ddyrgioni
A'i hagrwach ei harddwch hi.

Er caethiwed angharedig – y clwy
Sy'n cloi'r corff blinedig,
Hi a ddaw yn herio'i ddig
I'w chadair am ychydig.

Er dyfod ton o ddyrgioni – yn boen
Ac yn benyd imi,
Er gwanned fy nghred a 'nghri,
Eto, fe ddaliaf ati.

Ceir englynion yma sy'n werth cnoi cil drostynt, fel yr englyn hyfryd yma i Aberstalwm:

Aberstalwm

Pan oedd haf yn llawer brafiach, –
gwanwyn
A'i gweunydd yn lasach,
Einioes yn llawer mwynach
A gwaeau yn bethau bach.

Mae englynion eraill sy'n dangos ei frwdfrydedd tuag at chwaraeon, Cymru

a mwy, fel yr englyn yma i dri Chymro o'r un ysgol sy'n serenau ym myd pêl-droed, rygbi a beicio:

Bale, Warburton a Thomas

Eu hanes yw ein hennaint, – ein harwyr
Sy'n herio i gymaint,
A'r tri o fri inni'n fraint
Yw Gareth, Sam a Geraint.

Bu John Owen yn weinidog yn ardal Rhuthun am flynyddoedd ac mae'n dal i fyw yno, ond cafodd ei fagu yn Nhregain, Ynys Môn. Roedd ei ofalaeth gyntaf ym mwrllwm Llanberis.

Rhuthun

Mor braf yw'r dref hynafol – a theg
Ei thai canoloesol;
Hi'n dal yn deyrn uwchlaw dôl
A'i mawrhydi mor hudol.

Dyma gasgliad o englynion sy'n dangos diddordeb mewn llawer maes, a chyda naws deimladwy i'r dweud yn aml. Ceir englynion o fyd chwaraeon i fyd iechyd a gofal, o deyrngedau personol er cof am unigolion i gredo, ac o lefydd tramor i'r cyfarwydd, lleol. Braff gweld profiadau, llefydd a phobl yn cael eu trafod ar ffurf englynion, a bydded i'r hen grefft barhau a chael ei gwerthfawrogi. Mwynhewch yr ystod eang o drawiadau a'r myfyrio difyr a doeth.

Petaech yn dymuno cael copi o'r llyfryn o tua 400 o englynion, mae ar gael am £4, sef ceiniog yr englyn – bargaen yn wir! Cysylltwch ag Arwel Emlyn Jones, e-bost: arweljones1234@gmail.com; rhif ffôn: 07717617022.

Arwel Emlyn Jones



Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn awyddus i benodi unigolion brwdfrydig i'r swyddi canlynol i weithio fel rhan o dîm ymroddedig sy'n darparu arweiniad, cefnogaeth a chymorth i'n heglwysi.

Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol (35 awr yr wythnos)

Lleoliad:

Cynigir patrwm gwaith hyblyg gyda chyfeon i weithio gartref. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio ar draws Cymru.

Pwrpas y Swydd:

Gweithio mewn dau faes penodol, sef cenhadaeth a chyfathrebu digidol. Bydd deilydd y swydd yn cefnogi, datblygu a gweithredu rhaglen strategol o genhadaeth ymysg yr Eglwysi a'r Gymanfaoedd.

Yn ogystal, bydd yn gyfrifol am gyfathrebu effeithiol a chynorthwyo'r Undeb ac Eglwysi i ymgysylltu â chenhadaeth Duw mewn oes dechnolegol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Gristion sy'n ymarfer y ffydd ac yn llwyr gefnogol i amcanion elusennol Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae natur y swydd yn golygu bod hyn yn Ofyniad Galwedigaethol Penodol. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.

* Mae'n bosib ystyried yr hyblygrwydd o'rannu swydd, neu o weithio mewn un maes penodol yn unig ar sail swydd ran-amser. Yn ogystal, gellir ystyried cyfuno'r gwaith cyfathrebu digidol, neu'r gwaith cenhadol, gyda dyletswyddau gweinyddol yn Swyddfa'r Undeb i greu swydd lawn-amser.

Cyflog: £25,991–£27,741 (SCP 20–23)

Dyddiad cau: 30 Ebrill 2021

Dyddiad cyfweld: 13 Mai 2021

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais cysylltwch â'r

Parchedig Simeon Baker ar 0345 222 1514 neu e-bost: simeon@ubc.cymru

Gweinyddydd (18 awr yr wythnos)

Lleoliad:

Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin.

Pwrpas y Swydd:

Cyflawni ystod eang o ddyletswyddau gweinyddol yn y Swyddfa.

Gofynnir am o leiaf 2 flynedd o brofiad perthnasol, cymhwyster priodol, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio Microsoft Office 365.

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.

Os nad yw'r cymwysterau/profiad priodol gan ddarparu ymgeisydd, gellir darparu hyfforddiant drwy gynllun hyfforddi Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â'r Parchedig Judith Morris neu Mr Nigel Vaughan ar 0345 222 1514, neu drwy e-bost: nigel@ubc.cymru neu judith@ubc.cymru

Cyflog: SCP 8–10 (£20,493–£21,322) pro rata

Dyddiad cau: 30 Ebrill 2021

Dyddiad cyfweld: 13 Mai 2021



Y Silff Lyfrau Ar drywydd Dewi




Cyfrl fach ardderchog ar hanes Dewi Sant a'r traddodiadau amdano yw un Gerald Morgan. Mae'n fychan o ran maint (gellir ei chario ym mhoced dilledyn yn rhwydd), ond mae'n gyfuriog o wybodaeth am ein nawddsant ac yn ymestyn at 152 o dudalennau, a dim gair gwastraff yn yr un ohonynt. Cefais flas yn ddiweddar wrth ddychwelyd at fy nghopi ohoni a'i darllen o glawr i glawr, yr hyn na wneuthum o'r blaen, mae'n siŵr. Cymaint mwy o amser sydd gennym y dyddiau hyn, a ninnau'n dal mewn clo, i ddarllen a mwynhau'r cyfrolau sydd gennym eisoes ar ein silffoedd, ond sydd heb eu cyffwrdd ers peth amser. Teitl y llyfr yw *Ar Drywydd Dewi Sant*, ac fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2016 gan y Lolfa, Tal-y-bont, Ceredigion, am £5.99.

Mae'r awdur yn dechrau drwy drafod y dystiolaeth sydd gennym am y Dewi hanesyddol ac yna, drwy weddill y llyfr, mae'n ceisio dadelfennu'r hyn sy'n debyg o fod yn wir o'r llw o draddodiadau a ddatblygodd amdano ar draws y canrifoedd. Mynna mai gŵr o Geredigion yn hytrach nag o Ddyfed, sef Sir Benfro heddiw, ydoedd. Mae'r wybodaeth ffeithiol, hanesyddol, amdano'n brin, ond gallwn fod yn hyderus mai yn ystod y chweched ganrif yr oedd yn byw. Mae'r hyn a adroddwn fel arfer am fywyd a gweithgarwch Dewi yn deillio o waith Rhygyfarch o Lanbadarn a ysgrifennodd hanes ei fywyd yn Lladin bum can mlynedd yn ddiweddarach nag oes Dewi, ac mae'r ddogfen Gymraeg *Buchedd Dewi* yn ddibynnol ar y gwaith hwnnw. Yn y fersiwn hwnnw, gyda llaw, y cofnodwyd geiriau olaf adnabyddus y sant. Mae adroddiad Rhygyfarch yn frith o hanesion am wyrthiau anghredadwy a briodolir i'r sant.

Roedd gan Rhygyfarch amcan gwleidyddol dros gyfansoddi ei waith, sef cefnogi hawl Tyddewi i fod yn eglwys gadeiriol ac yn gyrchfan bwysig ar gyfer pererindota yn y canoloesoedd. Yno y gwarchodid creiriau Dewi. Neilltuir pennod i drafod Brwydr yr Archesgobaeth, brwydr a gollodd Tyddewi yn wyneb y grym gwleidyddol a gefnogai hawliau Caergaint. 'Er nad yw'n bosibl dynodi dyddiad pan gafodd Dewi ei gydnabod yn nawddsant Cymru,' meddai'r awdur, 'ni wyddom am unrhyw gystadleuydd.' Cofiw'n hefyd fod eglwysi wedi eu cysegru yn ei enw yn bodoli cyn dyfodiad y Normaniaid yn 1067.

Fe'n hatgoffir droeon yn y gyfrl fod Dewi'n ffigwr adnabyddus yn Iwerddon a Llydaw hefyd. Dangosir yn ogystal sut y mae'r traddodiadau amdano wedi parhau i ddatblygu dros y canrifoedd. Fe'i darluniwyd yn broffwyd, yn gadfridog ar faes y gad, yn farchog ac yn ŵr priod. A sawl gwydraid o win a yfwyd mewn llwncdestun i 'Ddewi Ddyfrwr'? Mae'r disgrifiad hwn ohono, gyda llaw, yn ymddangos gyntaf mewn dogfen o Lydaw o'r nawfed ganrif.



Mewn atodiadau ar derfyn y gyfrl rhestrir eglwysi sy'n dwyn ei enw yng Nghymru, Lloegr, Iwerddon a Llydaw ac a sefydlwyd cyn y Diwygiad Protestannaidd, a cheir crynodeb o waith Lladin Rhygyfarch. Ychwanegir llyfryddiaeth lawn, ac mae'r cyfan yn wir feistrolgar ac yn gwbl ddarllenadwy.

John Tudno Williams

Capel Seion

Dalier Sylw

Derbyniwyd neges gan y Parch Glyn Tudwal Jones, Caerdydd, i hysbysu darllenwyr *Cenn@d* mai ei gyfeiriad e-bost newydd yw glyn@tudwaljones.cymru ac na ddylid defnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd ganddo'n flaenorol.

Cwrs y Beibl – Capel Berea Newydd, Bangor

Mae'r Beibl yn llyfrgell hynod ddiddorol o 66 o lyfrau. Mae rhai o'r llyfrau yn llawn bwrlwm ond mae rhai'n darllen fel llyfr ffôn hen ffasiwn. Ond, heb amheuaeth, gall pob un o'r llyfrau hyn ddysgu rhywbeth inni a'n tywys i chwarae rhan yn narlun mawr ymwneud Duw â'i fyd.

Y cwestiwn mawr i ni, Gristnogion, yw: faint o amser rydyn ni'n ei roi yn ein bywydau prysur i ddarllen a deall y Beibl? Ac mae deall yma yn air allweddol.

Yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, roeddem wedi bod yn meddwl ers tro am ffordd o ddenu aelodau i dreulio amser mewn awyrgylch cymdeithasol yn trafod a dyfnhau eu ffydd, ac oherwydd cyfyngiadau'r Coronafeirws fe wnaethon ni benderfynu dilyn *Cwrs y Beibl* ar Zoom. Golygai hyn y gallai pobl ymuno â'r drafodaeth yn uniongyrchol o'u cartrefi, yn ogystal â rhoi cyfle i rai oedd yn byw ymhell i ffwrdd i ymuno hefyd.

Pwrpas y cwrs a ddarparwyd gan Gymdeithas y Beibl yw rhoi hyder i bobl ymaflyd yn y Beibl a'i ddarllen yn ddeallus gan weld ei berthnasedd ar gyfer bywyd heddiw. Drwy wyth sesiwn ryngweithiol, mae'n cyfuno addysg fideo â thrafodaeth, gan olrhain hanes llyfrau'r Beibl a'u perthynas â'i gilydd.

Mae'r ddarpariaeth fideo yn fodern iawn ac wedi'i chyflwyno'n dda, gydag egni ac

angerdd y cyflwynwyr yn mynnu sylw ac yn dal diddordeb. Yn anffodus, Saesneg yw iaith y cyflwyniadau yma, ac maent yn amlwg wedi eu hanelu at gynulleidfa Seisnig. Ond mae'r llawlyfr sy'n dod efo'r cwrs yn Gymraeg, ac mae'n adnodd hwylus sy'n crynhoi'r cynnwys a lle y gellir nodi meddyliau a theimladau ac unrhyw fanylion cofiadwy wrth fynd ymlaen.

Yr hyn a roddodd y boddhad mwyaf i'r rhai fu'n dilyn y cwrs oedd y trafodaethau grŵp gan eu bod yn rhoi cyfle i bawb siarad a dweud eu barn. Bu'r awyrgylch anffurfiol yn help i bawb rannu eu meddyliau yn rhydd heb ofni cael eu barnu. Erbyn diwedd y cwrs roeddwn i'n teimlo ein bod ni i gyd wedi dod i adnabod ein gilydd yn well, yn gwybod am ddiddordebau ein gilydd a'r pethau y teimlem yn gryf ac yn angerddol amdanynt. Roeddem hefyd yn gweld yn well sut y gallem gysylltu'r Beibl â'n bywydau bob dydd. Fe wnaeth siarad am ffydd agor deialog ddiddorol iawn. Dyma oedd barn rhai o'r criw am y cwrs:

“Cwrs sydd wedi ehangu fy nealltwriaeth a'm dysgu i edrych ar straeon y Beibl mewn modd perthnasol i ni heddiw. Cwrs hynod hwyliog a chwrs rwyf yn falch i mi ei fynychu.”



“Drwy gydol Cwrs y Beibl cefais amser i ddysgu mwy am gynnwys y llyfr, ond yn bwysicach oll cefais gyfle i'w roi yn ei gyd-destun. Ysgogodd y cwrs drafodaethau lu am faterion y mae'r Beibl yn eu harchwilio a arweiniodd at lawer o sgysiau difyr dros ben. Er imi deimlo nad oedd pob agwedd o'r cwrs yn berthnasol i mi, e.e. y sesiwn lle trafodir y frenhiniaeth a'r Beibl, fe fwyneais y cwrs yn fawr. I goroni'r cyfan cefais ddod i adnabod yr unigolion eraill oedd yn ei ddilyn, ac roedd y cwestiynau 'ice-breaker' ar ddechrau pob sesiwn yn sbort go iawn!”

“Roedd y cwrs ei hun wedi'i gynllunio'n drefnus ac ystyrlon, gyda'r clipiau fideo yn cynnig gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o'r testun dan sylw. Mawredd y cwrs oedd ei fod yn rhoi cyfle i griw o bobol, o wahanol oedran, i ddod at ei gilydd i sgwrsio a thrafod a chael eu herio gan amrywiaeth o syniadau a safbwyntiau.”

Mae *Cwrs y Beibl* yn dangos inni'r llinyn arian sy'n cysylltu llyfrau'r Beibl o fewn stori fawr y ffydd. Ond i mi, llwyddiant mawr y cwrs oedd dod â phobl ynghyd mewn awyrgylch hamddenol i ystyried eu ffydd a thyfu'n agosach at ei gilydd.

Owain Davies
Cynorthwydd Gweinidogaethol
Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Gofalaeth
Ardal Bangor

◀ Rhai aelodau o'r grŵp



ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd 41 – Mathias, yr eilydd

Gweddi

Nefol Dad, wrth glosio atat heddiw, a meddwl am yr hyn mae Mathias yn ei gynrychioli, helpa ni i weld ein hunain fel pobl sy'n cymryd ein lle yng ngwaith dy eglwys ar y ddaear. Gweddiwn dros arweinwyr yr eglwys heddiw, dros bawb sy'n sefyll yn y blaen ac yn rhoi llais i'w air a'w ewyllys. Helpa ni i ymroi i fwrlwm pob gweithgaredd yn yr eglwys rydym yn aelodau ohoni a bod yn deyrngar i ti ac i deulu'r ffydd bob dydd. Amen.

Darllen

Actau 1:12–26

Cyflwyniad

Yn dilyn esgyniad Iesu (Actau 1:6–11) dychwelodd y disgyblion a'u cyfeillion i'r oruwchystafell a threulio'r amser yn gweddio. Roedd hyn yn brofiad dyddiol iddynt, er nad oes sicrwydd bod y cyfarfodydd yn digwydd yn yr un man a gyda'r un cwmni yn union. Daethant yn fwyfwy ymwybodol fod bwllch yn eu rhengoedd gan fod Jwdas wedi cyflawni hunanladdiad.

Daethant i gredu bod angen ethol eilydd i Judas, ac aethpwyd i weddi. Cyfeirir at adnod yn Salm 109:8 fel sail Feiblaidd i hyn. Enwir dau o blith y cwmni o gyfeillion yno, sef Joseff a adnabyddid hefyd fel Barsabas, a Mathias. Wrth fwrw coelbren – sef ffurf o bleidleisio, dewiswyd Mathias, ac eglurir mai 'rhodd gan Dduw' yw ystyr yr enw. Ni wyddom unrhyw beth arall am y dyn. Credwyd felly mai Iesu a ddewisodd ei ddisgyblion ac, wrth ddweud eu bod wedi gofyn am arweiniad Iesu mewn gweddi, ei fod wedi dylanwadu ar y broses hon, a dewis Mathias.

Nodwn fod Luc yn cyfeirio'n aml at arfer y disgyblion o weddio a'u bod yn cyfeirio'u gweddïau at yr 'Arglwydd'. Gwelir hefyd fod angen rhywun arny'n nhw oedd yn dyst o'r atgyfodiad ac wedi profi cwmni Iesu yn y cyfnod rhwng yr atgyfodiad a'r esgyniad. Yn ddi-ddorol, nid oedd sôn am yr angen hwn tra oedd Iesu yn y cwmni. Ond mae Luc yn nodi iddynt ddod i sylweddoli bod yna fwllch yn eu rhengoedd o fewn byr amser i'r esgyniad, fel pe byddai Iesu wedi llenwi pob bwllch nes iddo fynd o'u cwmni.

Myfyrdod

Pa mor aml fydd cynulliad o Gristnogion yn cynnal pwyllgor neu gyfarfod heb feddwl offrymu gweddi, fel pe baen nhw'n cynnal pwyllgor yng nghyd-destun gwaith neu gymuned i hamddena? Bydd gweddio yn peri dau beth, sef bod y pwyllgorwyr yn cadarnhau yng nghwmni ei gilydd mai gweithgarwch yn enw Iesu yw'r digwyddiad ac, yn ail, nad ydynt yn ddigonol i arfer doethineb a sicrwydd heb fod yn ymwybodol o arweiniad Iesu. Byddai Luc am i'r Eglwys Fore geisio Crist ym mhob sefyllfa, am mai ef yw'r egni a'r awdurdod hanfodol.

Prin fod arwyddocâd i ystyr enw Mathias yn y cyd-destun hwn, ond mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli gwerth derbyn 'rhodd gan Dduw' fel cynulleidfaoedd ffydd. Ni wyddom unrhyw beth am Mathias mwyn a'r wybodaeth yn y bennod hon, a bod lliaws o aelodau'r eglwys yn cyfrannu a neb yn ymwybodol o'u cyfraniad. Ceir yr un pwyslais wrth sôn am Pedr yn 'sefyll gyda'r un ar ddeg' yn y bennod ddilynol, a bod gwaith yr eglwys yn waith grŵp heb boeni'n ormodol pwy oedd yn llefarydd neu'n arweinydd dynol. Erys Iesu yn arweinydd ac yn ei enw ef bydd pob eglwys yn gweithredu.

Faint o bobl sy'n cyfrannu i fwrlwm eglwys a neb wedi cofnodi na chydabod mesur y cyfraniad? Gallwn gymryd yn ganiataol fod Mathias wedi bod yn brysur ac wedi rhoi o'i orau. Efallai na wyddai Luc beth oedd cyfraniad yr eilydd hwn, ond roedd Luc yn sylweddoli bod angen i'r tîm fod yn gyflawn a bod gan bawb ei gyfraniad i'w roi. Tybed beth yw ein cyfraniad ni?

Gweddi

Diolch i ti, Arglwydd Iesu, am bob arweiniad rwyt yn ei roi i'r eglwys yn lleol ac yn fyd-eang. Ymddiriedwn yn dy allu a'w arweiniad. Cydnabyddwn gyfraniad pawb i fywyd yr eglwys a gwerthfawrogwn dy fod yn gwybod beth yw ein hangen ni yn ein cyd-destun presennol. Amen.

Trafod ac ymateb

- Meddyliwch am ffyrdd o ddiolch a chydabod llafur rhai sydd wedi bod yn brysur ond yn ddisyllw yng nghyfnod y pandemig yn ein heglwys – yn ffonio, yn gyrru cardiau, yn casglu cyfraniadau, yn helpu gyda thechnoleg etc.
- Faint o le a roddwn ni i weddi yn ein cyfarfodydd fel aelodau eglwysig a Christnogion? Beth a gollwn wrth ei hesgeuluso?
- Yn y cyfnod wedi'r Pasg a chyn y Pentecost, roedd dilynwyr Iesu yn teimlo'r angen i weddio yn ddyfal am arweiniad yn y cyfnod newydd fyddai'n agor o'u blaenau. A oes teimlad tebyg yn ein plith ni wrth wynebu cyfnod newydd o ailgydio mewn gweithgaredd?

S4C

Nos Sul, 18 Ebrill, am 7:00yh *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

Yr wythnos yma, bydd Nia yn codi'r llen ar hanes rhyfeddol Llanilltud Fawr. Cawn fwynhau datganiad teimladwy Steffan Morris o 'Nes atat ti, fy Nuw', a daw'r canu mawl o bob rhan o Gymru (Aildarlledir y Sul canlynol am 11.30yb)

Diolchwn am y ddarpariaeth o wasanaethau a gafwyd ar y teledu dros y cyfnod clo diwethaf. Daeth y trefniant wythnosol i ben, gydag addewid o oedfaon achlysurol i ddod. Os bu ichi werthfawrogi'r ddarpariaeth, yna beth am anfon gair i fynegi hynny at unrhyw un yn swyddfeydd S4C neu ar-lein ar eu gwefan: www.s4c.cymru/cy/cysylltu--ni, neu ar e-bost: gwifren@s4c.cymru

BBC radio cymru

Sul, 18 Ebrill, *Caniadaeth y Cysegr*

am 7:30yb a 4:30yp
Elen Ifan fydd yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfaoedd a gynhaliwyd yng nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwasanaeth Radio Cymru am 12.00yp
yng ngofal Beti-Wyn James, Caerfyrddin

Bara'r Beibl ar wefan Cristnogaeth.Cymru

Bydd croeso i chi ymweld â'r gyfres newydd *Bara'r Beibl* ar wefan Cristnogaeth.Cymru. Cyfres o ddeg erthygl fer sydd wedi eu paratoi gan Peter Davies yw hon, sy'n bwrw golwg ar rai o brif agweddau'r Ysgrythur. Dyma'r penawdau: Gwreiddiau'r Geiriau, Ysbrydoliaeth yr Ysgrythur, Gwirionedd y Gair, Awdurdod y Beibl, Codau Cyfrin, Crist yn y Beibl, Gwrth-ddweud y Gwrthddywediadau, Paradocs, Beibl > Diwinyddiaeth > Efengyl, Adrodd Adnod.

Gyda'n diolch i Peter am rannu'r adnodd yma â ni. Fe roddir un ohonynt yma fel enghraifft:

ADRODD ADNOD

Tybiaf fod sawl un ohonom wedi ein magu i ddweud adnod mewn capel. Roedd dysgu adnod yn orchwyl amhleserus i ambell blentyn. Ac roedd adrodd adnod yn waith annymunol iawn i sawl plentyn arall.

Ond tybed faint o'r adnodau hynny a gofiwn heddiw? Mae sawl un yn ddiolchgar am y cyfle i ddysgu adnodau sydd bellach ar gof a chadw. Ac fe ddônt i'r wyneb ar adegau amserol neu weithiau'n annisgwyl i ni.

Tybed, beth bynnag, a ydym wedi parhau â'r arfer o ddysgu adnodau a hyd yn oed eu dweud? Cofiaf yn dda pan oeddwn yn blentyn gael cymorth gan fy rieni i ddod o hyd i adnod a'i dweud. A falle, heb yn wybod i mi, fod hynny wedi gosod patrwm i mi ei ddilyn yn ystod y blynyddoedd.

Braf oedd clywed ffyddloniaid y cwrdd gweddi'n britho'u gweddiâu ag adnodau. Roeddent wedi'u trwytho yn y Beibl, oedd yn eu cynorthwyo i addoli Duw gan ddod â'u hangenion nhw ac eraill at yr Arglwydd. Roedd eu hieithwedd yn *Bibline*, fel y dywedodd Spurgeon!

O gofio bod y Beibl yn gyfrol ysbrydoledig ac felly'n wir ac yn awdurdodol, yna mae'n gwneud synnwyr i'r Cristion bori ynddo er mwyn ei les ei hun ac eraill. Ni ddylai ddisgwyl derbyn ei fwyd ysbrydol unwaith yr wythnos yn y capel. Onid gwell yw bwyta tafell o fara'n ddyddiol na thorth gyfan o fara unwaith yr wythnos?

Os nad yw dyn yn arfer trin y Gair, yna gall fod o gymorth iddo dorri'r dafell yn ddarnau mân rhag iddo ddiodeff diffyg traul. Dyma ffordd hylaw iddo ddysgu adnod. Mae angen ei hail-ddweud wrtho'i hun fel ei bod yn suddo i'w feddwl. Ac mae angen iddo feddwl am yr adnod mae'n ei dysgu er mwyn deall ei hystyr.

Wrth ddarllen y Beibl, gwêl y Cristion adnodau allweddol ynddo. Maent fel petaen nhw'n neidio tuag ato. Yr Ysbryd Glân sy'n goleuo'r Gair ysbrydoledig iddo ar yr adegau hynny, gan bwysleisio'i wirionedd a'i awdurdod.

Nid bod rhannau o'r Beibl yn llai ysbrydoledig, yn llai gwir neu'n llai awdurdodol na rhannau eraill o'r Beibl, ond yn hytrach mae rhai rhannau o'r Beibl yn bwysicach nag eraill o ran eu perthynas â'n ffydd a buchedd. Er enghraifft, mae Ioan 3:16 yn bwysicach na Lefiticus 14:36. Perthyn cymesuredd i gymhwysiad y Beibl.

O ran yr adnodau hynny sy'n taro dyn, gall ddmuno'u dysgu fel eu bod yn dod yn rhan o'i fywyd beunyddiol. O'u huno â gweddi dônt yn gyfryngau gwerthfawr yn ei arfogaeth ysbrydol. 'What we take in by the Word we digest by meditation and let out by prayer' (Thomas Manton).

O Arglwydd, dysg i'm chwilio i wirioneddau'r Gair nes dod o hyd i'r Ceidwad fu gynt ar liniau Mair; mae ef yn Dduw galluog, mae'n gadarn i iachâu; er cymaint yw fy llygredd mae'n ffynnon i'm glanhau.

*Grawnsyppiau Canaan
(Caneuon Ffydd, 333)*

Sicrhau cyfiawnder i bobl fel Rose

**cymorth
cristnogol**

*Wythnos Cymorth Cristnogol 2021
10-16 Mai*

Cyfiawnder hinsawdd. Dau air sy wedi dod i olygu llawer iawn i Gymorth Cristnogol. Ac er bod cymaint o bethau eraill wedi diflannu o sylw'r byd yn ystod blwyddyn gythryblus y Cofid, nid yw cyfiawnder hinsawdd wedi diflannu o gwbl.

Mae'r argyfwng mor fawr ag erioed.

Yn enwedig i Rose Katanu Jonathon o Kitui, Kenya. Dim ond chydig o ddŵr mae hi eisiau. Cyflenwad dibynadwy ac agos i'w chartref. Nid yw'n ormod i'w ofyn.

Ac eto, nid yw ar gael iddi. Rhaid iddi gerdded am oriau bob dydd er mwyn

cario'r hyn y mae darllenwyr yr erthygl hon yn ei gymryd yn ganiataol. I ni, dim ond troi'r tap sydd ei angen. Iddi hi, mae taith hir, beryglus yn ei hwynebu bob un dydd.

Er mwyn Rose, ei chymuned a thrigolion Kenya a sawl gwlad dlawd arall, mae Cymorth Cristnogol yn gofyn am eich cefnogaeth yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Argae Florence

Un o Kenya yw Florence Muthiani hefyd. Arferai ei bywyd hithau fod yn debyg iawn i fywyd Rose – taith luddedig, ddyddiol i gario dŵr. Ond daeth tro ar fydd Florence, a hynny oherwydd bod partner Cymorth Cristnogol yn y wlad wedi cefnogi ei chymuned i adeiladu argae yn ymyl y pentref.

Golyga hyn ei bod yn bosibl cronni dŵr y glawogydd prin a'i gadw ar gyfer yr adegau sych. Mae'r argae'n agos i'r pentref hefyd ac nid oes angen colli oriau bob dydd yn cario dŵr.

'Mae fy mywyd wedi newid,' meddai Florence wrthym. 'Rwy'n hapus iawn. Mae gen i nerth a chryfder.'

Mae'n tyfu cynydau i fwydo ei theulu ac i'w gwerthu. Mae'n cadw gwenyn hefyd ac yn gwerthu'r mêl yn y farchnad. Rhoddion cefnogwyr Cymorth Cristnogol sydd wedi ei gwneud yn bosibl i gymuned Florence adeiladu'r argae a chodi eu hunain allan o dlodi.



Florence Muthiani yn gofalu am ei gwenyn. Mae'n gallu gwerthu'r mêl yn y farchnad.

Eich cefnogaeth hanfodol chi

Trwy gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol, gallwch helpu mwy o bobl debyg iddi, pobl fel Rose a'r miliynau eraill o amgylch y byd sy'n gwybod yn iawn beth yw cyfiawnder hinsawdd.

- Gallai £6 brynu bag o sment sy'n angenrheidiol i godi argae.
- Gallai £27 brynu berfa – offer cwbl allweddol i'r gwaith.
- Gallai £335 hyfforddi pwyllgor argae gan roi'r sgiliau iddynt gynnal a chadw'r argae am flynyddoedd i ddod.

Mae llawer mwy o wybodaeth am [Wythnos Cymorth Cristnogol](http://WythnosCymorthCristnogol) ar gael ar wefan y mudiad, neu gallwch ffonio'r tîm yn y swyddfa genedlaethol yng Nghaerdydd ar 029 2084 4646 neu drwy e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org



Rose Jonathon yn cario dŵr i'w chartref. Rhaid iddi gerdded oriau maith bob dydd i chwilio am ddŵr.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn Pa fath gariad!

Emyn 539: 'Ai gwir y gair'

Cyflwyniad

Pan gaiff babi bach ei eni i'r byd, y cwestiynau cyntaf y bydd pobl yn eu gofyn yw: Ydy'r babi'n iach? Ydy'r fam yn iawn? I bwy mae o/hi yn debyg? Yn fynych iawn, mae'r ateb i'r trydydd cwestiwn yn dibynnu ar ba ochr i'r teulu sy'n siarad!

Yn ein darlleniad a'n myfyrdod heddiw cawn ein tywys i adnabod ein braint, ein bod yn blant i'n Tad nefol a thrwy hynny cawn ein hannog i dyfu i fod yn fwy Crist debyg.

Darlleniad

1 Ioan 3:1-7

Fe gofiwn ein bod wedi cyfeirio at brofiad y disgyblion o wynebu bedd gwag a Christ byw! Cawsant eu galw i fod gydag ef, i brofi ei Ysbryd ar waith yn eu bywydau, i fod yn dystion iddo.

Nid yw'n anodd dychmygu faint o her oedd yr alwad i ddilyn Iesu ymhlith Cristnogion cynharaf yr Eglwys Fore. Mewn môr o baganiaeth a gau-grefydda, yng nghanol cwl't yr Ymerawdr Rhufeinig, wrth wynebu dewisiadau moesol gwahanol i werthoedd a disgwyliadau eu cyfoedion, roedd un cwestiwn yn sicr o flino'r credinwyr cynnar: sut ydw i'n gwybod fy mod yn Gristion go iawn?

Os ydw i'n cael fy llenwi ag amheuan am Dduw a'r efengyl? Os ydw i'n ymwybodol fy mod yn syrthio'n brin o'm profes yn ddyddiol? Os yw fy nghyfoedion yn fy ngwawdio am na nad yw'r gwahaniaeth mae cwrdd ag Iesu a grym bywyd tragwyddol i'w weld yn amlwg ynof?

Mewn gair, y cwestiwn syml rwy'n chwilio am ateb iddo yw hyn: beth sy'n dangos i mi nad gwag, neu ofer, yw fy mhroffes a'm profiad? Mae'r ateb i'r cwestiwn ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn syml. Ond mae hefyd yn rhyfeddol o bellgyrhaeddol.

Sut felly mae adnabod profiad neu broffes ddilys o ffydd?

Mae Ioan yn ei lythyr yn cynnig tri ateb i'r ymholiad. Nodweddir ffydd ddilys y Cristion gan dri pheth:

- cred a ffydd newydd – adnabod Duw yng Nghrist drwy'r Ysbryd Glân (1 Ioan 4:13–16)
- cariad newydd at ei bobl, sef ei eglwys (1 Ioan 2:7–11)

iii. cyfeiriad newydd: a ydym yn caru sancteiddrwydd? (1 Ioan 2:1–6)

Pan geir y tair elfen gyda'i gilydd, ceir tystiolaeth i realiti'r cyfnewidiad a blannwyd ynom.

Wrth droi at yr adnodau sydd o'n blaenau heddiw, sylwn ar blethiad yr elfennau a'u heffaith arnom. Mae'r cyfan yn tarddu o ryfeddod cariad Duw a rhyfeddu at gariad Duw (3:1).

- 'Gwelwch,' meddai Ioan. Deallwn ar unwaith mai gwahoddiad ydyw i oedi, i edrych, i sylwi, i graffu, i ddirnad, i fesur, i olrhain cariad Duw.
- 'Pa fath gariad' h.y. gweld â'n dychymyg, ein deall, ein hemosiwn a'n hewyllys beth yw natur neu ansawdd y cariad dwyfol hwn. Pa fath gariad yw hwn? Cariad sy'n uniaethu â'r troseddwr, â'r gwrthryfelwyr, â'r syrthiedig a'r dolurus, ac yn rhoi ei hun drostynt / drosom.
- A thrwy'r brynedigaeth a'r gwaredwr hwn, down i berthynas unigryw â'r Tad; down yn blant iddo. Nid ein hewyllys ni a greodd yr amodau; ef ei hun a barodd ein geni ni o'r newydd i'r berthynas ryfeddol, dragwyddol hon.
- Oedwch am foment: pwyllwch, gwelwch. Gadewch i realiti hyn olchi drwy eich ymwybod. 'Yn awr,' gwelwch ein bod yn Iesu Grist – a thrwyddo – yn blant i Dduw: 'dyna ydym'. Nid dyna oeddem, ond 'dyna ydym'. Ac yfory, trwy ras a chariad Duw, 'dyna ydym'. Dyma'n wir realiti ein berthynas â'r Tad y funud hon.
- Beth sydd eto i ddod? Rydym yn awr yn blant iddo, ond nid yw'r perffeithrwydd, na chyflawnder y gwaith ynom wedi ei gwblhau. Mae yna reolwr newydd yn y busnes, ond nid yw'r gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau eto! Mae'r ddelw'n cael ei hadfer yn araf bach, ond 'nid amlygwyd eto beth a fyddwn'.
- Pwy sydd eto i ddod? Tensiwn y bywyd Cristnogol yw ein bod yn byw yn awr drwy ffydd ac yn fynych mae'r ffydd honno yn aneglur, mewn drych, mewn dameg. Ond fe wyddom gymaint â hyn – 'y bydd ef yn ymddangos'. Mae yna ddyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith: dydd ei ddyfodiad, dydd Crist Iesu. Dyna'r dydd y troir ein ffydd yn 'weld', ein gobaith yn gyflawniad. Cawn ei weld ef fel y mae; Iesu, fel y mae; gras, fel y

mae; maddeuant, fel y mae; cariad fel y mae.

- Gobaith i'w gyflawni. Er nad adnabu'i gyfoedion fawredd y Crist a safai yn eu plith, Mab Duw ydoedd. Ni allodd dirmyg y byd newid realiti'r person dwyfol oedd wedi dod i'w plith. Ac ni all anghrediniaeth neu wawd y byd dorri ein perthynas ryfeddol â'r Tad drwy ei ras. Ar ei ymddangosiad 'byddwn yn debyg iddo ...', yn debyg o ran urddas, statws, a harddwch. Wedi'r cyfan yr ydym yn blant i'r Arglwydd.
- Pa wahaniaeth a wna hyn? O feddiannu'r gobaith, neu'n hytrach o gael ein meddiannu gan obaith, fe drawsnewidir ein cyfeiriad a'n gwerthoedd. Profwn 'anian bur' (David Charles). Greddf newydd yw hon, greddf sy'n hiraethu am adael ôl y gwrthryfel o'n hôl. Awydd ydyw i fod 'yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw', dyhead am feddiannu'r cyfiawnhad, y glendid, y sancteiddrwydd a'r rhyddid sy'n eiddo i bobl Dduw. Meddiannu sancteiddrwydd yw mwynhau'r rhyddhad oddi wrth euogrwydd, rhyddhad o ofnau'r bedd, a chael ymdrochi mewn cariad wedi ei wreiddio ar sail tragwyddol heddi.
- Felly, i'r Cristion mae gostyngeddwrwydd yn briodol. Does dim lle i ariangarwch, na hunan-gyfiawnder. Does dim lle i wag ymfrost na hunan-dyb. Does dim lle i gelwydd, anonestrwydd, twyll, na rhagrith. Er hynny, nid absenoldeb drygioni yw mesur y Cristion ond ffrwyth yr Ysbryd Glân mewn bywydau glân, sy'n fynegiant byw o'r bywyd a blannwyd ynom ac a'n gwnaeth yn blant i Dduw.

Gweddi

Hollalluog a sanctaidd Dduw, plygwn ger dy fron mewn rhyfeddod. Cyffeswn i ti mai trueiniaid ydym, gelynyon i ti wrth natur, heb obaith a heb Dduw yn y byd. Diolch fod Iesu Grist wedi dod i gymryd ein natur, ein dyled a'n dolur. Pa fath gariad yw hwn? Rhyfeddwn drwy dy Ysbryd Glân y medrwn ddod yn blant i ti. Rhyfeddwn at y fath gariad. Bydded yn wir i'th gariad ein synnu, fel y byddo moliant yn byrlymu a glendid moes yn nodweddu ein bywydau. Er mwyn Iesu Grist, Amen.

Emyn 315 (pennill 3 yn arbennig):
'Ble'r enynnodd fy nymuniad'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@cennad.cymru

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)